



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Mawrth 2020 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd M. Adams	Y Cynghorydd R. Bevan
Y Cynghorydd H. Boggis	Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S. Bradwick	Y Cynghorydd J. Brencher
Y Cynghorydd A. Calvert	Y Cynghorydd G. Caple
Y Cynghorydd A. Cox	Y Cynghorydd A. Crimmings
Y Cynghorydd J. Cullwick	Y Cynghorydd G. Davies
Y Cynghorydd J. Davies	Y Cynghorydd L. De Vet
Y Cynghorydd J. Elliott	Y Cynghorydd J. Edwards
Y Cynghorydd M. Forey	Y Cynghorydd S. Evans
Y Cynghorydd H. Fychan	Y Cynghorydd E. George
Y Cynghorydd E. Griffiths	Y Cynghorydd M. Griffiths
Y Cynghorydd J. Harries	Y Cynghorydd G. Holmes
Y Cynghorydd L. Hooper	Y Cynghorydd P. Howe
Y Cynghorydd G. Hughes	Y Cynghorydd J. James
Y Cynghorydd G. Jones	Y Cynghorydd P. Jarman
Y Cynghorydd W. Jones	Y Cynghorydd K. Jones
Y Cynghorydd W. Lewis	Y Cynghorydd R. Lewis
Y Cynghorydd A. Morgan	Y Cynghorydd C. Leyshon
Y Cynghorydd S. Morgans	Y Cynghorydd K. Morgan
Y Cynghorydd D. Owen-Jones	Y Cynghorydd M. Norris
Y Cynghorydd S. Pickering	Y Cynghorydd W. Owen
Y Cynghorydd S. Rees	Y Cynghorydd M. Powell
Y Cynghorydd J. Rosser	Y Cynghorydd A. Roberts
Y Cynghorydd E. Stephens	Y Cynghorydd G. Stacey
Y Cynghorydd G. Thomas	Y Cynghorydd M. Tegg
Y Cynghorydd R. Turner	Y Cynghorydd W. Treeby
Y Cynghorydd D. Williams	Y Cynghorydd M. Webber
Y Cynghorydd J. Williams	Y Cynghorydd G. Williams
Y Cynghorydd C. Willis	Y Cynghorydd T. Williams
	Y Cynghorydd R. Yeo

Swyddogion yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

129 Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Belzak, A. Chapman, A. Davies-Jones, M. Diamond, S. M. Evans, M. Fidler Jones, A.S. Fox, D. Grehan, G. E. Hopkins, L. Jones, S. Powderhill, S. M. Powell, S. Rees-Owen, L. Walker, M. Weaver ac E. Webster

130 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Ynglŷn ag eitem 6: Gwneud Gwahaniaeth - Cynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor ar gyfer 2020-2024

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens - "Rydw i'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n gyfrifol am Gredyd Cynhwysol"

Mewn perthynas â'r eitemau canlynol ar yr agenda:

Eitem 6: Gwneud Gwahaniaeth - Cynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor ar gyfer 2020-2024

Eitem 7: Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21

Eitem 8: Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21 hyd at 2022/23

Eitem 9: Penderfyniad Treth y Cyngor 2020/2021

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at ei gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar y 29 Tachwedd 2019 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol proses Cyllideb 2020-21, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."

Mewn perthynas ag Eitem 7 - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan – "Cyn aelod o fwrdd y Muni ac aelod o fwrdd Artis"

(**Nodyn:** Cafodd dau ddatganiad o fuddiant ei wneud gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis a G. Thomas (mae Cofnod 140 yn nodi hyn) yn ddiweddarach yn y cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 11 – Rhybudd o Gynnig.

131 Cyhoeddiadau

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. De Vet (a Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) ei bod hi'n gwerthu tocynnau Raffl ar gyfer Raffl y Maer;
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman fod preswlydd ifanc yn ei ward, Ellie Pryor, wedi cael ei dewis i gynrychioli tîm Prydain yn y categori codi pwysau i bobl ifainc. Dywedodd y Cynghorydd Jarman hefyd fod Mr Dave Church, Pennaeth Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi cael ei enwebu gan ddisgyblion ar gyfer 'Gwobr Disgybl i'r Athro Gorau' yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru, a'i fod wedi cyrraedd y rhestr fer. Bydd y gwobrau'n cael eu cynnal yng Nghastell Hensol ym mis Mai 2020. Nodwyd, i gydnabod y cyflawniadau, y byddai'r Maer yn anfon llythyr o longyfarch i'r ddau.
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser, mewn perthynas â Gwobrau Datblygu Gyrfa'r DU 2020, fod Cyngor Rhondda Cynon Taf ar restr fer y categori "Rhaglen Yrfaoedd mewn Ysgolion Arbennig" a bod Hayley Jacobs o Ysgol Bryncelwynnog wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categori "Gwobrau Unigol Ymarfer Gorau - Arweinydd Gyrfaoedd y Flwyddyn". Roedd y Cynghorydd J. Rosser yn dymuno eu llongyfarch i gyd a Siân Woolson a'i thîm am y gwaith cydlynu.
- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries yn dymuno llongyfarch Daniel Isaac am gael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn Taekwondo ar gyfer Tîm Prydain Fawr.
- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell yn dymuno talu teyrnged i Eglwys Saint y Dyddiau Diwethaf ac enwadau ffydd eraill am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y llifogydd diweddar.

132 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020, yn rhai cywir.

Materion yn deillio - Dywedodd y Cadeirydd fod holl ymatebion y Cabinet i gwestiynau'r cyfarfod blaenorol wedi'u darparu a'u dosbarthu fel y bo'n briodol.

133 Datganiadau

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan y datganiad a ganlyn mewn perthynas â'r Coronafeirws.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw ffrwyno'r firws a'i atal rhag lledaenu, ac mai'r ffordd orau y gall pobl amddiffyn eu hunain ac eraill rhag heintio yw golchi dwylo'n drylwyr ac osgoi cyffwrdd â'r llygaid, y trwyn a'r geg. Ychwanegodd nad oes angen i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth gymryd unrhyw fesurau arbennig ar hyn o bryd heblaw am ddilyn cyngor ynghylch golchi dwylo a'r cyngor ynghylch teithwyr sy'n dychwelyd, gan ynysu eu hunain pan fo angen.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi dosbarthu gwybodaeth am olchi dwylo ac wedi darparu cyngor i deithwyr sy'n dychwelyd ymhlith staff. Mae gwybodaeth, cymorth a chyngor hefyd wedi'u darparu i ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol.

Dywedwyd wrth yr aelodau, os bydd y sefyllfa'n gwaethygu, y gallai fod goblygiadau pellach i Wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau yn y Gymuned, a Gwasanaethau i Oedolion, ond gallai pob gwasanaeth gael ei effeithio o bosibl pe bai absenoldebau staff yn cynyddu oherwydd COVID 19.

Mae Uwch Arweinwyr y Cyngor wedi cael gwybodaeth am y mater hwn a bydd angen i wasanaethau sicrhau bod eu cynlluniau parhad busnes yn gyfredol ac yn gydnorth. Mae'r Cyngor eisoes wedi rhoi cynlluniau gweithlu ar waith i reoli absenoldebau oherwydd COVID 19, gyda chanllawiau wedi'u dosbarthu i staff ar 2 Mawrth.

134 Cwestiynau gan yr Aelodau

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Y llynedd dathlodd Cymru 20 mlynedd ers creu Cynulliad Cymru. A wnaiff Arweinydd y Cyngor amlinellu'r effaith y mae datganoli wedi'i chael ar bobl RhCT?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod mwy o ddiogelwch yng Nghymru rhag cyni nag a welwyd yn Lloegr, a roddwyd i Gyngorau gan Lywodraeth Cymru. Mae Cymru yn ffodus i gael gofal plant am ddim a phresgripsiynau am ddim, y buddsoddiad mwyaf erioed mewn ysgolion (rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif sy'n cael ei chyflwyno ar draws ysgolion yn RhCT) a theithio am ddim ar fysiau. Mae gan Gymru hefyd y gyfradd ailgylchu orau yn y DU.”

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James:

“Dywedodd y Cyngorydd James fod Llywodraeth Cymru wedi dangos diffyg uchelgais a chwmpas. Cyfeiriodd at amseroedd aros y GIG ac economi wael a diffyg cyfeiriad dros yr 20 mlynedd diwethaf. Gofynnodd y Cyngorydd James ai nawr oedd yr amser i gynnal Refferendwm, pleidlais y Bobl? ”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod gennym ni fel rhanbarth un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac rydym ni'n gwneud cynnydd sylweddol. O ran y bleidlais, ychwanegodd y Cyngorydd Morgan ei fod yn croesawu ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru, sy'n beth prin o du Llywodraeth y DU. Cyfeiriodd at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn ac at fuddion eraill yn gyffredinol na fyddai'n cael eu gwireddu trwy reolaeth uniongyrchol o San Steffan. ”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant,

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon: -

“Faint o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:

“Dywedodd y Cynghorydd T. Leyshon, yn ôl yr arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru yn 2017/18, fod 16% o oedolion yng Nghymru yn ddifreintiedig yn faterol, bod 39% o rieni â thri neu ragor o blant yn ddifreintiedig yn faterol, a bod 49% o rieni sengl yn ddifreintiedig yn faterol. Ychwanegodd y Cynghorydd Leyshon fod 46% o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn ddifreintiedig yn sylweddol, o'i gymharu â 31% mewn llety rhentu preifat a 7% mewn tai perchen-feddianwyr. Aeth y Cynghorydd Leyshon yn ei blaen i sôn bod 37% o bobl sy'n ddifreintiedig yn faterol yn teimlo'n unig o gymharu â 12% o'r rhai nad ydyn nhw'n ddifreintiedig.

Adroddodd y Cynghorydd Leyshon fod ymchwil a wnaed gan Brifysgol Loughborough yn amcangyfrif bod nifer y plant sy'n byw mewn tlodi ar draws RhCT yn 13,350 (24%), cynyddodd hyn i 17,612 (32%) ar ôl tynnu costau tai. Roedd gan RCT yr ail ganran fwyaf o blant yn byw mewn tlodi cyn costau tai (Caerdydd oedd y mwyaf gyda 25%) ac yn gydradd 3ydd o blith y mwyaf ar ôl costau tai (roedd gan ardaloedd Blaenau Gwent a Merthyr Tudful 34%).

Adroddodd y Cynghorydd Leyshon y ffigurau canlynol a ddangosodd fod Penrhwiwceiber ar frig y safleoedd ar gyfer costau tai (cyn ac ar ôl), tra bod Dwyrain Aberpennar yn 16eg cyn costau tai ac yn 22ain ar ôl hynny; a Gorllewin Aberpennar yn y safle tu ôl i hynny, sef 17eg a 23ain.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod y Cyngor, i gydnabod hyn, yn cynnig bod cyllid yn cael ei ddyrannu tuag at fynd i'r afael â thlodi mewn partneriaeth â phartneriaid lleol yn rhan o gyllideb eleni”.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman:

“Diolchodd y Cynghorydd Jarman i'r Aelod o'r Cabinet am yr ystadegau a phwysleisiodd fod gormod o deuluoedd yn byw mewn tlodi. Soniodd Aelod am Strategaeth Tlodi Plant Cymru sy'n cynnig diffiniad o dlodi, sef “*cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a manau agored deniadol) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn*”. Gofynnodd y Cynghorydd Jarman am ddarparu canran y teuluoedd sy'n byw mewn tlodi sy'n aelwydydd un rhiant. ”

Ymateb y Cynghorydd T. Leyshon:

Cadarnhaodd y Cynghorydd T. Leyshon y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu i'r Cynghorydd P. Jarman yn dilyn y cyfarfod.

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“A all yr Arweinydd roi sylwadau ar y sefyllfa gyda Lido Cenedlaethol Cymru?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod y difrod i'r Lido yn helaeth ond mae'r gwaith glanhau ar y gweill. Ychwanegodd ei bod yn ymddangos yn annhebygol iawn y bydd y Lido yn ailagor yr haf hwn ond byddai'r newyddion diweddaraf ynghylch cynnydd yn cael eu darparu'n rheolaidd. ”

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher:

“Pa ddifrod sydd i'r pontydd a'r strwythurau ledled y Fwrdeistref Sirol?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cadarnhaodd y Cyngorydd Morgan fod difrod strwythurol wedi effeithio ar y Bont Wen yn Heol Berw, Pont M&S ym Mhontypridd a Phont Castle Inn yn Nhrefforest. Bydd angen dymchwel dwy o'r tair pont ym Mhontypridd gan y gallai'r pontydd gwmpo pe bai pobl yn cerdded arnyn nhw. Ychwanegodd fod Pont Parc Pontypridd yn gyswllt pwysig rhwng y dref a'r parc ond y gallai gymryd misoedd i'w hatgyweirio.”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i Arweinydd y Cyngor – Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“A fyddai Arweinydd y Cyngor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am yr estyniad arfaethedig i linell Aberdâr i Hirwaun / y Rhigos?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dywedodd y Cyngorydd Morgan y bydd trafodaeth ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru i archwilio'r opsiynau o ran sut y gellir darparu gwasanaethau o'r fath i deithwyr. Mae'r opsiynau'n cynnwys newid y llinell bresennol i 'reilffordd ysgafn' neu darmacio'r llinell a'i throsi'n fws ffordd sy'n rhedeg ar reilffordd. Ychwanegodd fod rhywrai wedi holi adran WeTAG ynglŷn â chyflymu'r amserlen bresennol ond mae'r gwaith i gadarnhau un opsiwn ar gyfer datblygu ac adnabod safleoedd gorsafoedd posibl yn parhau.”

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis:

“Beth all y Cyngor ei wneud i wella'r cysylltiadau â Chwm Cynon uchaf gyda'r nos ac ar benwythnosau?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Ymatebodd y Cyngorydd Morgan fod trafndiaeth gyhoeddus yn rhedeg gyda'r nos ar y mwyafrif o lwybrau ond ychwanegodd fod y Cyngor yn edrych ar reoleiddio bysiau ac y byddai'n annog unrhyw gwmni bysiau pe bydden nhw'n dymuno rhedeg llwybrau nad ydyn nhw'n rhai sy'n gwneud elw ar draws y cwm”

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“A wnaiff Arweinydd y Cyngor ddatganiad ar y tirlithriadau yng Nghwm Rhondda Fach a achoswyd gan Storm Dennis?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan fod ymateb i gwestiwn y Cynghorydd S. Morgans eisoes wedi'i roi yn ei ddatganiad blaenorol”

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans:

“Mae etifeddiaeth tomenni glo yn fater sy'n effeithio ar rannau helaeth o'r DU ac felly mae'n fater cenedlaethol - oni ddylai corff cenedlaethol fodoli i weinyddu gwaith monitro a gwerthuso safleoedd glo?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan nad oes un corff ar hyn o bryd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoleiddio tomenni segur, eu bod naill ai mewn perchnogaeth breifat neu yn eiddo i'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, neu'r Awdurdod Glo. Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod llunio rhestr o'r holl domenni yn yr ardal fel bod gan un corff trosfwaol gyfrifoldeb cyffredinol drostyn nhw bellach yn flaenoriaeth. ”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“A all yr Arweinydd amlinellu pa gefnogaeth a chymorth y mae'r Cyngor yn eu rhoi i breswylwyr y mae Storm Dennis wedi effeithio arnyn nhw?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan fod ymateb i gwestiwn y Cynghorydd J. Bonetto eisoes wedi'i ddarparu yn ei ddatganiad blaenorol.”

Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Bonetto:

“A allwch chi ddweud wrthon ni pa gefnogaeth sydd i'w chael i'r busnesau yn yr ardaloedd hynny sydd wedi cael eu heffeithio ac ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod 75% o fusnesau yn Nhrefforest / Nantgarw wedi dioddef llifogydd, gyda 95% o'r busnesau ar hen Ystad Ddiwydiannol Trefforest wedi cael eu heffeithio gan Storm Dennis. Mae perchennog busnes o'r Ystad wedi mynychu'r Bwrdd Adfer Digwyddiadau Mawr ac mae staff cymorth busnes y Cyngor wedi bod yn bresennol yng nghanol ein trefi ac ar ein safleoedd sydd wedi cael eu heffeithio i gynnig cymorth uniongyrchol. Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod busnesau mwy eu maint yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru am gymorth. ”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

“Mae'r Cyngor hwn wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau hamdden a chwaraeon dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi creu 'RhCT iach a gweithgar'. A all Aelod o'r Cabinet amlinellu pa fuddsoddiadau pellach mewn cyfleusterau chwaraeon a pharciau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

“Cadarnhaodd y Cyngorydd Crimmings fod y Cyngor wedi dyrannu cyllid sylweddol tuag at hamdden a chwarae dros y pum mlynedd diwethaf a'i fod yn parhau i fuddsoddi mewn parciau a mannau chwarae yn 2020/21, fel yr amlinellwyd yn eitem 8 ar agenda'r Cyngor. Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd y ffocws ar gyflawni gwelliannau i ystafelloedd newid trwy raglen o adnewyddu ac atgyweirio. Mae gan y Cyngor dros 100 o adeiladau yn ei barciau a bydd y rhaglen yn ceisio delio â'r gwaethaf o'r adeiladau hyn a'u gwella i safon dda.

Dywedodd y Cyngorydd Crimmings fod y rhaglen ar gyfer gwella ardaloedd chwarae wedi gwella cyfanswm o 115 o gyfleusterau chwarae ledled y Sir, gyda 15 man chwarae arall yn cael eu gwella yn 2020/21. Dywedodd y Cyngorydd Crimmings fod y Cyngor dros y 5 mlynedd diwethaf wedi ymgymryd â rhaglen adnewyddu uchelgeisiol yn y Canolfannau Hamdden ac ystafelloedd ffitrwydd sydd wedi arwain at gynnydd parhaus mewn Aelodaeth Hamdden, sydd bellach wedi cyrraedd dros 10,000.

I gloi, cyhoeddodd y Cyngorydd Crimmings fod y Cyngor yn agor cyfleuster ffitrwydd newydd yn natblygiad Llys Cadwyn ym Mhontypridd. Mae'r cyfleuster unigryw yn cynnwys ystafell ffitrwydd ag 80 peiriant Techno Gym, ystafell amlweithgaredd yn ogystal â chyfleusterau newid cysylltiedig. Y disgwyl yw y bydd cyfleuster newydd yn agor ar 30 Mawrth ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ddenu aelodau newydd o staff. Hysbyswyd yr aelodau, hefyd, fod y Cyngor wedi darparu 13 o gaeau chwaraeon 3G ac ar hyn o bryd mae yn y broses o weithio i ddarparu cyfleuster arall yn ardal Treorci”.

136 Rhaglen Waith y Cyngor – er gwybodaeth i Aelodau

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu wybod i'r Aelodau am y diweddariadau mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cyngor ac am yr eitemau a fyddai'n cael eu hadrodd i gyfarfod y Cyngor ar 18 Mawrth 2020. Ychwanegodd y byddai adroddiad Rhyddfrint y Fwrdeistref yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020.

137 Gwneud Gwahaniaeth - Cynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor 2020-2024

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a oedd yn cyflwyno Cynllun Corfforaethol drafft newydd 2020-2024. Dywedodd fod drafft cyntaf y Cynllun Corfforaethol newydd wedi bod yn destun gwaith cyn y cam craffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor a phroses ymgynghori gynhwysfawr 12 wythnos o hyd a oedd yn cynnwys cymunedau lleol a staff y cyngor, ac roedd e wedi cael ei ystyried gan y Cabinet. Cafodd yr aelodau wybod bod adborth o'r ymgynghoriad wedi dangos cefnogaeth glir i weledigaeth y Cyngor a'i thair blaenoriaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gweledigaeth arfaethedig y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf i'w gweld yn adran 4 yr adroddiad, sy'n hyrwyddo pwrpas ac uchelgais yr awdurdod lleol, er gwaetha'r ansicrwydd sy'n bodoli'n fyd-eang ar hyn o bryd o ran trefniadau masnachu'r DU ac effaith digideiddio.

Yn dilyn ei gyflwyniad ymatebodd y Prif Weithredwr i nifer o ymholiadau a rhoi eglurhad ar ddefnydd y derminoleg 'Carbon Niwtral' a 'Net Zero'. Yn dilyn trafodaeth bellach **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2020-2024.

138 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2020/21 ac yn nodi argymhellion y Cabinet mewn perthynas â Chyllideb Refeniw'r Cyngor a lefel Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2021.

Wrth ddod a'i gyflwyniad i ben, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei bod yn briodol bod £1 miliwn o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol wedi'i ryddhau'n yn ogystal â £0.500 miliwn pellach i gefnogi'r broses adfer mewn ymateb i'r digwyddiad eithriadol, Storm Dennis. Byddai'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn cael eu hailgyflenwi wrth symud ymlaen yn rhan o reolaeth ariannol gref barhaus y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James AC) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol terfynol 2020/2021, yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
2. Nodi'r goblygiadau i'r Cyngor a'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn Nhabl 1 yr adroddiad;
3. Cytuno ar gynnydd o 2.85% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2020/21;
4. Cytuno ar y cynnydd yng Nghyllideb Grynsyth yr Ysgolion fel yn adran 8 yr adroddiad;
5. Cytuno ar gynigion strategaeth y gyllideb fel ym mharagraffau 9.3 (a) i 9.3 (i) yr adroddiad;
6. Defnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £0.800 miliwn ar gyfer 2020/21;
7. Cymeradwyo Tablau 3 a 4 yn Adran 12 yr adroddiad yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni gofynion ariannu corfforaethol y Cyngor;
8. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2020/21 o £508.747 miliwn, er mwyn cymeradwyo'r penderfyniadau statudol angenrheidiol o ran pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2020.

139 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21 hyd at 2022/23

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol Raglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2020/21 i 2022/23, ar ôl derbyn y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2020/21.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i drafod yr adroddiad yn fanwl ac i gloi cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol y bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau yswiriant ers i £800,000 gael ei ryddhau i'w

fuddsoddi yn isadeiledd priffyrdd y Cyngor. Dywedodd fod yr Yswirwyr, o ganlyniad i ddiwyddiadau diweddar, wedi cael eu rhybuddio i fod ar gael i ddelio â'r hawliadau yswiriant.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi manylion setliad llywodraeth leol terfynol 2020/21 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;
2. Cytuno i ryddhau balans cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi fel ym mharagraff 5.3 yr adroddiad;
3. Cytuno i ymgymryd â Benthycy Darbodus fel ym mharagraff 5.5 yr adroddiad;
4. Cytuno i ddyrannu'r cyllid sydd wedi'i ryddhau o Gronfeydd Wrth-gefn sydd wedi'u Clustnodi a Benthycy Darbodus i'r blaenoriaethau buddsoddi fel ym mharagraff 6.2 yr adroddiad;
5. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd 'graidd' arfaethedig, yn Atodiad 2 yr adroddiad;
6. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3 yr adroddiad, sy'n cynnwys y cyllid canlynol nad yw'n gyllid craidd:
 - Benthycy darbodus i gefnogi Cynlluniau Ysgolion yr 21^{ain} Garrif, prosiect Datblygu Llys Cadwyn (Dyffryn Taf) a chynlluniau gwella'r priffyrdd;
 - Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
 - Cyfraniadau trydydd parti;
 - Adnoddau ychwanegol y Cyngor a gafodd eu dyrannu'n flaenorol i gefnogi cynlluniau sy'n bodoli eisoes a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
 - Y blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 6.2, sydd wedi'u hariannu gan arian cyfalaf un tro oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3.2, rhyddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi yn unol â pharagraff 5.3, a Benthycy Darbodus yn unol â pharagraff 5.5 yr adroddiad.

140 Penderfyniad Treth y Cyngor 2020/2021

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol fanylion cyfrifiad Treth Cyngor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2021, cyn pasio'r penderfyniadau statudol angenrheidiol.

PENDERFYNWYD:

- i) Nodi lefel Praesept Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru;
- ii) Nodi lefel Praesept y Cyngor Cymuned sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad;
- iii) Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn

ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2021, fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad;

- iv) Nodi sylwadau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig a nodwyd ym mharagraff 9.2 yr adroddiad.

141 Newid Aelodaeth

Yn unol â'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng Nghofnod Rhif 13(1) o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 15 Mai 2019, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu ei fod wedi derbyn hysbysiad gan y Grŵp Llafur o newidiadau i'w aelodaeth o'r Pwyllgorau canlynol: y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu; y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad; a'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc.

Adroddwyd hefyd, yn unol â'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng Nghofnod Rhif 17 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2017 roedd gofyn am enwebu aelod i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto ar y Cyngor Iechyd Cymuned.

PENDERFYNWYD nodi'r canlynol:

1. Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill y cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powell ar y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu;
2. Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones ar y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad;
3. Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Turner yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones ar y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc; a
4. Bydd Grŵp Plaid Cymru yn enwebu aelod i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto ar y Cyngor Iechyd Cymuned, ac yn ychwanegol at hynny, y bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf i roi gwybod iddynt pwy yw cynrychiolydd mae'r Awdurdod yn ei enwebu.

142 Rhybuddion o Gynnig

A. **PENDERFYNODD** yr Aelodau y byddai Rheol 10.6 o Ddull Gweithredu'r Cyngor yn cael ei atal, gan fod Eilydd y Rhybudd o Gynnig, sef Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. S. Fox wedi ymddiheuro. Roedd hyn yn golygu bod modd ystyried y Rhybudd o Gynnig isod yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol E. George, A. Fox, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Yn absenoldeb y Cynghorydd A. Fox, eiliodd y Cynghorydd L. M. Adams y Cynnig.

Dros y degawd diwethaf, mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi cael gwared ar

20,000 o swyddogion yr heddlu, gan olygu bod llai o swyddogion i'w gweld ar ein strydoedd. Mae hyn yn cyd-daro â chynnydd yn nifer yr achosion o droseddau sydd ddim yn digwydd mor aml, ond sy'n peri mwy o niwed, er enghraifft troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll a dynladdiad. Mae'r toriadau hyn hefyd wedi arwain at ddigalonni ymhlith heddluoedd ac wedi cael effaith andwyol ar eu hamodau gwaith, gan fod swyddogion wedi'u gwthio i'r eithaf.

Yn ystod y misoedd cyn yr Etholiad Cyffredinol diweddar, ymrwymodd y Prif Weinidog, Boris Johnson, i benodi "20,000 o heddweision newydd" a fydd yn cael eu "rhoi ar strydoedd y wlad hon." Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dweud y bydd yr holl swyddogion sy'n cael eu penodi'n rhan o'r ymgyrch yma'n ychwanegol at y rhai sy'n cael eu cyflogi i lenwi swyddi gwag cyfredol, a byddan nhw hefyd ar ben y niferoedd sy'n cael eu recriwtio trwy'r cynnydd yng nghyllid yr Heddlu ar gyfer 2019/20.

Fodd bynnag, yn ôl Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bydd y targedau penodi yma'n gofyn am hyd at 500,000 o ymgeiswyr dros y tair blynedd nesaf, gyda hyd at 50,000 yn cael eu cyflogi i wneud iawn am nifer y swyddogion sy'n ymddeol neu'n gadael yn gynnar bob blwyddyn.

Yn ardal Heddlu De Cymru, mae'r polisïau cyni roddodd y Llywodraeth Geidwadol ar waith wedi arwain at ostyngiad net o 113 swyddog o'r Heddlu. Mae'r Cyngor hwn eisoes wedi cefnogi Cynnig yn galw am ariannu plismona rheng flaen mewn modd priodol, yn ogystal ag adolygiad o'r fformiwla ariannu. O dan gynlluniau recriwtio Llywodraeth y DU, gallai Heddlu De Cymru weld adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer recriwtio staff, ac mae'n hanfodol bod mwyafrif llethol yr adnoddau ychwanegol yn canolbwyntio ar blismona cymunedol a chadw strydoedd ledled ein cymunedau yn ddiogel.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i holi faint o'r Swyddogion a benodwyd a gaiff eu dyrannu i blismona yn y gymuned.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, H. Fychan, E. Griffiths, K. Morgan, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, A. Chapman, S. Evans, E. Webster, L. Jones, E. Stephens, M. Weaver, S. Rees-Owen a D. Grehan.

Dros y degawd diwethaf, mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi cael gwared ar 20,000 o swyddogion yr heddlu, gan olygu bod llai o swyddogion i'w gweld ar ein strydoedd. Mae hyn yn cyd-daro â chynnydd yn nifer yr achosion o droseddau sydd ddim yn digwydd mor aml, ond sy'n peri mwy o niwed, er enghraifft troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll a dynladdiad. Mae'r toriadau hyn hefyd wedi arwain at ddigalonni ymhlith heddluoedd ac wedi cael effaith andwyol ar eu hamodau gwaith, gan fod swyddogion wedi'u gwthio i'r eithaf.

Yn ystod y misoedd cyn yr Etholiad Cyffredinol diweddar, ymrwymodd y Prif Weinidog, Boris Johnson, i benodi "20,000 o heddweision newydd" a fydd yn cael eu "rhoi ar strydoedd y wlad hon." Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dweud y bydd yr holl swyddogion sy'n cael eu penodi'n rhan o'r ymgyrch yma'n ychwanegol at y rhai sy'n cael eu cyflogi i lenwi swyddi gwag cyfredol, a byddan nhw hefyd ar ben y niferoedd sy'n cael eu recriwtio trwy'r cynnydd yng nghyllid yr

Heddlu ar gyfer 2019/20.

Fodd bynnag, yn ôl Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bydd y targedau penodi yma'n gofyn am hyd at 500,000 o ymgeiswyr dros y tair blynedd nesaf, gyda hyd at 50,000 yn cael eu cyflogi i wneud iawn am nifer y swyddogion sy'n ymddeol neu'n gadael yn gynnar bob blwyddyn.

Yn ardal Heddlu De Cymru, mae'r polisïau cyni roddodd y Llywodraeth Geidwadol ar waith wedi arwain at ostyngiad net o 113 swyddog o'r Heddlu. Mae'r Cyngor hwn eisoes wedi cefnogi Cynnig yn galw am ariannu plismona rheng flaen mewn modd priodol, yn ogystal ag adolygiad o'r fformiwla ariannu. O dan gynlluniau recriwtio Llywodraeth y DU, gallai Heddlu De Cymru weld adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer recriwtio staff, ac mae'n hanfodol bod mwyafrif llethol yr adnoddau ychwanegol yn canolbwyntio ar blismona cymunedol a chadw strydoedd ledled ein cymunedau yn ddiogel.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

Nodi'r datganiad yn adroddiad Cyllideb Comisiynydd Heddlu De Cymru i Banel Heddlu a Throsedd De Cymru ar 30 Ionawr 2020, pan gafodd y cynnydd ym Mhraesept yr Heddlu ei drafod a'i gymeradwyo gan y Panel

Mae'r datganiad yn nodi bod "y strategaeth gyllidebol arfaethedig yn adlewyrchu sefydlu 200 o swyddi PCSO Cyfwerth ag Amser Llawn, a ariennir o gyllideb Heddlu De Cymru sy'n ategu'r 206 o swyddi CPSO a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan arwain at 406 PCSO ar draws ardal yr heddlu neu 100 PCSO fesul Uned Gorchymyn Sylfaenol (BCU), sy'n sicrhau bod Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn rhan o'n cymunedau trwy waith Plismona Cymdogaeth."

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu ymhellach y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, sy'n gyfrifol am faterion gweithredol, er mwyn cadarnhau bod y manylion hynny a nodir yn adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'u mabwysiadu fel bod modd cyflwyno plismona cymunedol effeithiol yn ardal CBS Rhondda Cynon Taf.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â'i mabwysiadu.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadau'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

(Nodyn: Roedd holl aelodau Grŵp Plaid Cymru a Chynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Powell, W. Owen, a G. Williams yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y gwelliant).

(Nodwch: Cyhoeddodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R. Lewis a G. Thomas y buddiannau personol canlynol yn ystod y drafodaeth ar yr eitem:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis – "Rwy'n aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd";
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas – "Rwy'n aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd")

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: J. Harries, J. Bonetto, L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Gyda'r dinistr diweddar i'n cymunedau a ddaeth yn sgil Storm Dennis dros y penwythnos, mae'r difrod a achoswyd gan y llifogydd, na welwyd ei fath o'r blaen, wedi effeithio'n sylweddol ar fywydau llawer o'n preswylwyr a'n busnesau.

Mae mesuryddion lefel afon yn dangos bod pob un o'n hafonydd wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd, gydag Afon Taf yn torri record 40 mlynedd wrth gyrraedd 5.2m. Ar ben hyn, profodd rhai cymunedau yn rhannau mwyaf gogleddol y sir werth mis o law mewn dim ond 24 awr.

Mae staff y Cyngor, contractwyr, gwasanaethau brys a sefydliadau eraill wedi gweithio'n ddiflino ers y penwythnos er mwyn ymateb i'r llifogydd a'r gwaith glanhau dilynol. Er nad yw maint llawn y difrod wedi'i gadarnhau eto, mae'n amlwg y bydd angen symiau sylweddol o arian i atgyweirio'r difrod i gartrefi, busnesau, adeiladau'r Cyngor ac isadeiledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhwng £5 miliwn a £10 miliwn ar gael i gefnogi preswylwyr a busnesau sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, ac mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu ei Gronfa Caledi Storm Dennis ei hun - gan ddangos ymrwymiad clir i gefnogi preswylwyr a busnesau ledled y Sir a thu hwnt.

Er gwaethaf hyn, mae'r diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth y DU yn amlwg, ac mae hyn eisoes wedi'i gondemnio'n gyhoeddus gan lawer o bobl. Ni chafodd unrhyw gyfarfod COBRA ei alw er gwaethaf y llifogydd a'r difrod eang a welwyd ledled Cymru a rhannau helaeth o Loegr yn dilyn dau benwythnos o dywydd garw yn olynol.

Felly, mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Diystyriad Llywodraeth y DU o gymunedau ledled Cymru a Lloegr yn dilyn rhywfaint o'r tywydd gwaethaf yn hanes diweddar.

- Diffyg cefnogaeth o unrhyw fath gan Lywodraeth y DU i helpu cymunedau, busnesau, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r llifogydd.

- Ymrwymiad staff y Cyngor, gwasanaethau brys, contractwyr, sefydliadau partner ac awdurdodau cyfagos i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r rheiny a gafodd eu heffeithio.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn pa gymorth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gynnig ar gyfer y gwaith adfer ac

atgyweirio sydd ar y gweill.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, H. Fychan, E. Griffiths, K. Morgan, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, A. Chapman, S. Evans, E. Webster, L. Jones, E. Stephens, M. Weaver, S. Rees-Owen a D. Grehan.

Gyda'r dinistr diweddar i'n cymunedau a ddaeth yn sgil Storm Dennis dros y penwythnos, mae'r difrod a achoswyd gan y llifogydd, na welwyd ei fath o'r blaen, wedi effeithio'n sylweddol ar fywydau llawer o'n preswylwyr a'n busnesau.

Mae mesuryddion lefel afon yn dangos bod pob un o'n hafonydd wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd, gydag Afon Taf yn torri record 40 mlynedd wrth gyrraedd 5.2m, ac, ar ben hynny, cafodd y ffosydd eu gorlenwi a methodd y gorsafoedd pwmpio. Ar ben hyn, profodd rhai cymunedau yn rhannau mwyaf gogleddol y sir werth mis o law mewn dim ond 24 awr.

Mae staff y Cyngor, sydd wedi'u gorymestyn, contractwyr, gwasanaethau brys, cymunedau a gwirfoddolwyr, a sefydliadau eraill wedi gweithio'n ddifflino ers y penwythnos er mwyn ymateb i'r llifogydd a'r gwaith glanhau dilynol. Er nad yw maint llawn y difrod wedi'i gadarnhau eto, mae'n amlwg y bydd angen symiau sylweddol o arian i atgyweirio'r difrod i gartrefi, busnesau, adeiladau'r Cyngor ac isadeiledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhwng £5 miliwn a £10 miliwn ar gael i gefnogi preswylwyr a busnesau sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, ac mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu ei Gronfa Caledi Storm Dennis ei hun - gan ddangos ymrwymiad clir i gefnogi preswylwyr a busnesau ledled y Sir a thu hwnt.

Er gwaethaf hyn, mae'r diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth y DU yn amlwg, ac mae hyn eisoes wedi'i gondemnio'n gyhoeddus gan lawer o bobl. Ni chafodd unrhyw gyfarfod COBRA ei alw er gwaethaf y llifogydd a'r difrod eang a welwyd ledled Cymru a rhannau helaeth o Loegr yn dilyn dau benwythnos o dywydd garw yn olynol.

Felly, mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Diystyriad Llywodraeth y DU o gymunedau ledled Cymru a Lloegr yn dilyn rhywfaint o'r tywydd gwaethaf yn hanes diweddar.

- Diffyg cefnogaeth o unrhyw fath gan Lywodraeth y DU i helpu cymunedau, busnesau, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r llifogydd.

- Ymrwymiad staff y Cyngor, sydd wedi'u gorymestyn, gwasanaethau brys, cymunedau, gwirfoddolwyr, contractwyr, sefydliadau partner ac awdurdodau cyfagos i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r rheiny a gafodd

eu heffeithio.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn pa gymorth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gynnis ar gyfer y gwaith adfer ac atgyweirio sydd ar y gweill.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â'i mabwysiadu.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cyflwynodd y cynigydd newid i'r Cynnig, i gynnwys testun ychwanegol sydd wedi'i nodi isod:

*"Mae mesuryddion lefel afon yn dangos bod pob un o'n hafonydd wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd, gydag Afon Taf yn torri record 40 mlynedd wrth gyrraedd 5.2m, ac, **ar ben hynny, cafodd y ffosydd eu gorlenwi**".*

*"Mae staff y Cyngor **sydd wedi'u gorymestyn**, contractwyr, gwasanaethau brys **cymunedau a gwirfoddolwyr**"*

*"Ymrwymiad staff y Cyngor, **sydd wedi'u gorymestyn**, gwasanaethau brys, **cymunedau, gwirfoddolwyr, contractwyr**, sefydliadau partner ac awdurdodau cyfagos i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r rheiny a gafodd eu heffeithio."*

Dyma'r cynnig wedi'i ddiwygio:

Gyda'r dinistr diweddar i'n cymunedau a ddaeth yn sgil Storm Dennis dros y penwythnos, mae'r difrod a achoswyd gan y llifogydd, na welwyd ei fath o'r blaen, wedi effeithio'n sylweddol ar fywydau llawer o'n preswylwyr a'n busnesau.

Mae mesuryddion lefel afon yn dangos bod pob un o'n hafonydd wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd, gydag Afon Taf yn torri record 40 mlynedd wrth gyrraedd 5.2m, ac, ar ben hynny, cafodd y ffosydd eu gorlenwi. Ar ben hyn, profodd rhai cymunedau yn rhannau mwyaf gogleddol y sir werth mis o law mewn dim ond 24 awr.

Mae staff y Cyngor, sydd wedi'u gorymestyn, contractwyr, gwasanaethau brys, cymunedau a gwirfoddolwyr, a sefydliadau eraill wedi gweithio'n ddiflino ers y penwythnos er mwyn ymateb i'r llifogydd a'r gwaith glanhau dilynol. Er nad yw maint llawn y difrod wedi'i gadarnhau eto, mae'n amlwg y bydd angen symiau sylweddol o arian i atgyweirio'r difrod i gartrefi, busnesau, adeiladau'r Cyngor ac isadeiledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhwng £5 miliwn a £10 miliwn ar gael i gefnogi preswylwyr a busnesau sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, ac mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu ei Gronfa Caledi Storm Dennis ei hun - gan ddangos ymrwymiad clir i gefnogi preswylwyr a busnesau ledled y Sir a thu hwnt.

Er gwaethaf hyn, mae'r diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth y DU yn amlwg, ac mae hyn eisoes wedi'i gondemnio'n gyhoeddus gan lawer o bobl. Ni chafodd unrhyw gyfarfod COBRA ei alw er gwaethaf y llifogydd a'r difrod eang a welwyd ledled Cymru a rhannau helaeth o Loegr yn dilyn dau benwythnos o dywydd garw yn olynol.

Felly, mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Diystyriad Llywodraeth y DU o gymunedau ledled Cymru a Lloegr yn dilyn rhywfaint o'r tywydd gwaethaf yn hanes diweddar.

- Diffyg cefnogaeth o unrhyw fath gan Lywodraeth y DU i helpu cymunedau, busnesau, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r llifogydd.

- Ymrwymiad staff y Cyngor, sydd wedi'u gorymestyn, gwasanaethau brys, cymunedau, gwirfoddolwyr, contractwyr, sefydliadau partner ac awdurdodau cyfagos i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r rheiny a gafodd eu heffeithio. Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn pa gymorth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gynnig ar gyfer y gwaith adfer ac atgyweirio sydd ar y gweill.

PENDERFYNODDD y Cyngor dderbyn y newid fel y'i cynigiwyd gan y Cynigydd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol a'r newidiadau a drafodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55pm

**Y Cynghorydd G. Hughes
Cadeirydd**